Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion strategol a blaenoriaethau y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

3.3 Awgrymir tynnu risg 7 a 10, ac ychwanegu risg 13.

Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg.

| Matrics Risg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| **Tebygolrwydd** | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) | A |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) | B |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) | C |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) | D |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** | |
| | | **Effaith** | | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae sustem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. Mae’n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i’r asesiad a’r ymateb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y gofrestr yn adlewyrchiad teg o’r sefyllfa a byddaf yn cefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth reoli’r risgiau mae GwE yn eu wynebu.